Rhifyn 10: Ionawr 2012

Blwyddyn Newydd Dda! Croeso i Ddegfed Cylchlythyr Panel Dinasyddion Ceredigion, 'Llais Ceredigion'

Dyma gylchlythyr diweddaraf Panel Dinasyddion Ceredigion. Cewch eich diweddaru ynghylch canlyniadau'n harolwg diwethaf ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd, neu a bwriedir eu cymryd gan y partneriaid yn dilyn eich ymatebion.

Diolch i bawb a gyfrannodd at Arolwg 10. Heb eich sylwadau a'ch cyfraniad chi, ni allwn wella ein gwasanaethau na sicrhau eu bod yn ateb eich anghenion a'ch disgwyliadau chi.

Sut y defnyddir eich gwybodaeth:

Mae'r holl ymatebion yn cael eu dadansoddi ac yna mae adroddiadau'n cael eu hanfon yn uniongyrchol at yr holl bartneriaid. Rydym yn crynhoi'r canlyniadau hynny yn ein llythyron newyddion, a hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan y partneriaid neu'n rhoi gwybod ichi sut y defnyddir y wybodaeth.

Gan fod rhai penderfyniadau'n cymryd mwy o amser na'i gilydd, ein bwriad yn ein cylchlythyron yn y dyfodol yw rhoi sylw o'r newydd i rai o'r materion a gafodd sylw yn flaenorol, a chyflwyno gwybodaeth ichi am unrhyw gamau gweithredu sydd wedi cael eu rhoi ar waith.

Rydym yn cynnwys pob arolwg sydd wedi ei orffen mewn raffl fawr, ac rydym yn falch o gyhoeddi mai'r enillydd ar gyfer Arolwg 10 yw Ms Edwards o ardal Rhydyfelin, Aberystwyth.

Llongyfarchiadau ar ran yr holl bartneriaid! Os hoffech chi gael cyfle i ennill £50 y tro nesaf, llenwch Arolwg 11 a'i ddychwelyd atom ni cyn gynted â phosibl.

Canlyniadau Arolwg 10:

- Gofynnodd Cyngor Sir Ceredigion i chi ystyried eu hamcanion strategol.
- Gofynnodd Heddlu Dyfed-Powys am eich barn am blismona lleol, y Ganolfan Gyfathrebu a'u hymwneud â Siarter Iaith Ceredigion.
- Roedd Bwrdd Iechyd Hywel Dda am glywed eich barn am y modd y mae'r GIG yn ymdrin ag unrhyw bryderon a allai fod gennych.



Os ydych yn dymuno cael y wybodaeth hon mewn fformat print bras, Braille neu ar dâp sain ffoniwch 01267 226262.

Cyngor Sir Ceredigion

Yn dilyn Arolwg 9, mae'r Cyngor wedi defnyddio eich sylwadau wrth lunio gweledigaeth ar gyfer y sefydliad, sy'n seiliedig ar amcanion strategol.

Gweledigaeth: **Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n rhoi gwerth am arian, gan gefnogi economi gref a hybu lles ein pobl a'n cymunedau.**

Yn Arolwg 10 gofynnwyd i chi am eich barn am y camau roedd y Cyngor yn eu hystyried ar gyfer pob amcan strategol, gyda'r camau wedi'u rhestru, yn ôl blaenoriaeth fel y'i detholwyd gennych chi, dan bob amcan.

Amcan Strategol A: Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud yn dda wrth ddarparu gwasanaethau sy'n unol ag anghenion ein dinasyddion, ac mae'n sefydliad sy'n addas at y diben.
(1) Darparu gwasanaethau o ansawdd da;
(2) Darparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian;
(3) Ymdrin yn chwim â cheisiadau am wasanaeth;
(4) Amserau agor estynedig;
(5) Gall pobl wneud mwy drostynt eu hunain drwy wefan y Cyngor .

Amcan Strategol B: Bydd Ceredigion yn darparu gwasanaethau a fydd yn cyfrannu at fywydau iachach ac yn diogelu pobl sy'n agored i niwed yn y sir.
(1) Darparu gofal yn y gymuned;
(2) Diogelwch cymunedol;
(3) Diogelwch ar y ffyrdd;
(4) Gwasanaethau rheoleiddio, er enghraifft, diogelwch bwyd a safonau masnach;
(5) Hybu iechyd, er enghraifft, drwy ddarparu cyfleusterau hamdden.

Amcan Strategol C: Datblygu Aberystwyth yn ganolfan o bwys rhanbarthol a chenedlaethol.
(1) Ysgogi a chynnal swyddi o ansawdd uchel;
(2) Gwella cyfleusterau parcio;
(3) Gwella trafnidiaeth a seilwaith y ffyrdd;
(4) Darparu mwy o gyfleusterau siopa ac adloniant;
(5) Gwella diwylliant a threftadaeth.

Amcan Strategol Ch: Llunio'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant er mwyn bodloni anghenion pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith yng Ngheredigion a chyflawni'r canlyniadau dysgu gorau.
(1) Darparu addysg o ansawdd uchel mewn ysgolion cynradd;
(2) Darparu addysg o ansawdd uchel mewn ysgolion uwchradd;
(3) Darparu lleoliadau gwaith a phrentisiaethau digonol;
(4) Hybu hyfforddiant galwedigaethol;
(5) Darparu cyfleoedd addysg i oedolion.

Amcan Strategol D: Amodau a chyfleoedd yng Ngheredigion sy'n galluogi busnesau i ddatblygu a ffynnu.
(1) Darparu rhyddhad ardrethi busnes;
(2) Darparu grantiau busnes a chyngor;
(3) Darparu cludiant cyhoeddus digonol;
(4) Hybu cyfleoedd hyfforddiant i fusnesau bach;
(5) Darparu unedau cychwyn busnes.

Yna gofynnwyd i chi a oedd gennych chi unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â'r amcanion strategol uchod: Cyfeirioch chi at dref Aberystwyth (siopau ac adeiladau gwael yn benodol), busnesau, ardrethi a threthi busnes, a hefyd sut roedd y Cyngor yn bwriadu cyflawni'r camau uchod.

Diweddariad Arolwg 10

Diolch yn fawr iawn am gymryd yr amser i ystyried ein camau blaenoriaeth ar gyfer yr amcanion strategol uchod. Byddwn yn defnyddio'ch adborth i'n helpu i ddiffinio'n camau blaenoriaeth wrth i ni geisio gwella gwasanaethau ar gyfer dinasyddion Ceredigion wrth wynebu heriau ariannol sylweddol.

Bydd eich blaenoriaethau a'ch sylwadau yn ein cynorthwyo i ddatblygu'n gweithgareddau wrth i ni symud mewn i 2012-13. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn gweithio ar 'raglen trawsnewid' a fydd yn darparu effeithlonrwydd gweinyddol a gwella'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Heddlu Dyfed-Powys

Canolfan Gyfathrebiadau

Gofynnwyd y cwestiynau hyn i chi'n gyntaf ym Mehefin 2009 (Arolwg 3), ac yna Awst 2010 (Arolwg 7), a byddant yn parhau i gael eu gofyn yn flynyddol i weld a yw'r gwasanaeth wedi gwella, ac i ddarganfod pa ddatblygiadau pellach rydych chi'n teimlo sydd angen eu gwneud. Roedd 98 ohonoch chi wedi gwneud galwad ffôn i Heddlu Dyfed-Powys yn ystod y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â 97 yn 2010. Cafodd 58% ohonoch chi gyfarchiad dwyieithog, o'i gymharu â 64% yn 2010, fodd bynnag yn yr arolwg hwn roedd 37% ohonoch yn methu cofio a gawsoch chi eich cyfarch yn ddwyieithog ai peidio, o'i gymharu â 28% yn 2010. Gofynnwyd hefyd i chi am eich barn ar y gwasanaeth a dderbyniwyd gennych:

Pan atebwyd eich galwad, a oedd yn:	% (nifer ohonoch chi)
Yn gyflymach na'r disgwyl	14% (13)
O fewn yr amser a ddisgwylid	**69% (66)**
Yn arafach na'r disgwyl	14% (13)
Ddim yn gwybod / cofio	4% (4)

Ar ôl i'r alwad orffen, a oedd eich argraff o'r gwasanaeth a ddarparwyd:	% (nifer ohonoch chi)
Yn well nag oeddech wedi disgwyl	20% (19)
Fel yr oeddech wedi disgwyl	**71% (69)**
Yn waeth nag oeddech wedi disgwyl	9% (9)

Dywedodd y rhan fwyaf ohonoch fod eich galwad i Heddlu Dyfed-Powys wedi'i hateb o fewn yr amser a ddisgwyliwyd gennych. Yn Arolwg 7, roedd y nifer fwyaf ohonoch (66%) hefyd wedi derbyn ateb i'ch galwad o fewn yr amser a ddisgwyliwyd gennych, Yn yr holiadur hwn, dywedodd 71% ohonoch fod y gwasanaeth a dderbyniwyd gennych fel yr oeddech wedi disgwyl. Yn Arolwg 7, dywedodd nifer tebyg (73% ohonoch) bod y gwasanaeth a dderbyniwyd gennych fel yr oeddech wedi disgwyl.

Siarter Iaith Ceredigion

Ei ddiben yw codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog a ddarperir ar draws y sir. Yn ddiweddar ymunodd Heddlu Dyfed-Powys a dyfarnwyd iddo safon Aur am gyflenwi gwasanaeth.

Roedd 117 ohonoch yn ymwybodol o fenter y Siarter Iaith, a hoffai 162 ohonoch chi weld Heddlu Dyfed-Powys yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w ran yn y Fenter. Y dulliau mwyaf poblogaidd o gyfathrebu'r ymwneud hwn oedd drwy bapurau lleol, ar y radio lleol ac ar hysbysfyrddau lleol.

Diweddariad Arolwg 10

Hoffai Lisa O'Connor, Ymgynghorydd iaith Gymraeg Heddlu Dyfed-Powys ddiolch i bawb am eu hadborth: "Mae'n dda gwybod bod ymwybyddiaeth am y Siarter o fewn Ceredigion yn uchel, gan fod hon yn gyd-fenter eithaf newydd, a hynod gyffrous. Mae'r fenter yn ein helpu ni, fel corff i fesur sut rydym ni'n gwneud a beth sydd angen ei wella. Bydd eich ymatebion chi yn ein helpu / harwain wrth wneud rhagor o waith i hyrwyddo ymglymiad Heddlu Dyfed-Powys gyda'r Siarter, er mwyn i ni allu annog hyd yn oed rhagor o bobl i ofyn am a derbyn gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, os mai dyna eu dymuniad."

Diweddariad Arolygon 9 a 10: Canfyddiad y Cyhoedd

Bob blwyddyn mae tîm Datblygu Corfforaethol Heddlu Dyfed-Powys yn ymgynghori ag aelodau o'r cyhoedd i ganfod eu barn am drosedd ac anhrefn yn eu hardal leol. Eleni buom yn y Sioe Frenhinol a Sioeau Sir Benfro ac Aberteifi, ynghyd â lleoliadau eraill yn holi eich barn.

Bu aelodau o Baneli Dinasyddion hefyd yn cyfrannu i'r ymgynghoriad hwn, gyda'r cwestiynau 'Canfyddiad Cyhoeddus' yn cael eu cynnwys ar draws dau o'ch arolygon.

Bydd eich ymatebion yn cael eu hychwanegu at y dulliau ymgynghori eraill a wnaed yn ystod y flwyddyn i helpu Awdurdod yr Heddlu i benderfynu ar eu blaenoriaethau ar gyfer 2012. Bydd y canlyniadau hefyd yn cael eu bwydo i'r Timau Plismona Lleol yn eich ardal i helpu i fynd i'r afael â'r problemau a godwyd gennych chi.

Drwy'r Paneli Dinasyddion, ymgynghori wyneb yn wyneb mewn digwyddiadau a grwpiau ffocws rhithiol, cwblhaodd 4,448 o breswylwyr ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys ein harolwg gan roi dealltwriaeth dda i ni o'r materion sy'n effeithio arnoch chi. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gasglu'r canlyniadau hyn i gyd a chaiff hyn ei fwydo'n ôl i chi mewn rhifyn arall o'r cylchlythyr yn y dyfodol.

Bwrdd Iechyd Hywel Dda

"Gweithio i Wella" Ers 1af Ebrill 2011, mae'r ffordd y mae sefydliadau'r GIG yng Nghymru'n ymdrin â chwynion, honiadau a digwyddiadau (y cyfeirir atynt o dan yr enw cyfunol pryderon) wedi newid. Gelwir y trefniadau newydd hyn yn "Gweithio i Wella", a fydd yn golygu defnyddio dull gwahanol wrth drin cwynion.

Pe bai pryder gennych chi, byddai'n well gan y mwyafrif llethol ohonoch chi (97%) godi'r pryder eich hun, ond byddai 17% (63 ohonoch chi) yn teimlo'n anesmwyth am godi'r mater gyda chorff GIG e.e. Bwrdd Iechyd neu feddyg teulu neu ddeintydd. Fyddech chi ddim am gael eich cyfrif yn bobl sy'n 'creu trafferth' neu weld unrhyw driniaeth yn y dyfodol yn cael ei beryglu gan eich cwyn. Roedd gan rai ohonoch chi brofiad negyddol yn y gorffennol yn sgil codi pryderon gyda'r GIG.

Mae'r Cyngor Iechyd Cymunedol yn cynnig gwasanaeth eiriolaeth annibynnol am ddim, a all helpu cleifion neu bobl sy'n gweithredu ar eu rhan, i nodi pryder drwy weithdrefn bryderon y GIG.
Roedd 30% (112 ohonoch chi) yn gwybod bod Cynghorau Iechyd Cymuned yn cynrychioli eich ardal; doedd 70% (266 ohonoch chi) ddim yn gwybod. Roedd 67 ohonoch chi hefyd yn gwybod eu bod yn darparu gwasanaeth eiriolaeth am ddim i'ch helpu ac i'ch cynghori am bryderon y GIG.
Gallwch gysylltu â Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion eich Cyngor Iechyd Cymuned lleol ar 0845 6650763.

Amcanion Cydraddoldeb

Rydym wedi ymrwymo i barhau i leihau effaith 'anghydraddoldebau iechyd' drwy nodi beth sy'n eu hachosi a mynd i'r afael â'r achosion hynny. Rydym am sicrhau bod pawb yn cael cyfle - gyda'n cymorth ni - i wella'u hiechyd a derbyn y gwasanaethau gorau y gallwn eu cynnig, felly rydym am gael eich barn er mwyn helpu i gynllunio ein Hamcanion Cydraddoldeb. Roeddem ni'n awyddus i glywed am eich profiadau chi neu eich teulu gyda'r gwasanaethau gofal iechyd roeddech chi wedi'u derbyn gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda.

Os yw'n berthnasol, pa rai o'r gwasanaethau canlynol ydych chi neu aelod o'ch teulu wedi'u defnyddio yn ystod y 12 mis diwethaf? (**Noder: Gan fod hwn yn gwestiwn aml ddewis, ni fydd cyfanswm y canrannau'n 100%**)

Gwasanaeth a ddefnyddiwyd	% (Nifer ohonoch chi)	Gwasanaeth a ddefnyddiwyd	% (Nifer ohonoch chi)
Cleifion allanol	60% (229)	Cymunedol	11% (40)
Profion patholeg	29% (109)	Mamolaeth	4% (14)
Cleifion mewnol	27% (103)	Dieteg	3% (13)
Ffisiotherapi	17% (65)	Iechyd meddwl/anableddau dysgu	3% (12)

Y gwasanaethau a ddefnyddiwyd gan y nifer fwyaf ohonoch chi / aelodau eich teulu oedd gwasanaethau cleifion allanol, profion patholeg a gwasanaethau cleifion mewnol. Fodd bynnag roedd 29% ohonoch chi na ddefnyddiodd unrhyw rai o'r gwasanaethau uchod.
O'r rhai ohonoch chi oedd wedi defnyddio'r gwasanaethau iechyd uchod, gofynnwyd i chi ddweud wrthym beth oedd yn dda am y gwasanaeth a gawsoch, beth oedd yn ddrwg, sut roeddech chi'n credu y gallem ni ei wneud yn well, ac a oeddech chi wedi profi unrhyw drafferthion wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Survey 10 Update: Dywedodd Jackie Hooper, Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Bwrdd Iechyd Hywel Dda: "Yn Arolwg 10 holwyd eich barn am ein gwasanaethau wrth baratoi am ein Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol, i'w cyhoeddi ym mis Ebrill 2012 yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd dweud wrthym ni am eich profiadau yn ein helpu i ddiffinio ein blaenoriaethau yn y dyfodol wrth ddarparu'r gofal cywir, yn y lle cywir a bod yn gyflogwr o ddewis. Mae cael eich trin yn deg ac â pharch yn berthnasol i bawb, yn staff, defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a chyfeillion a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr arolwg.

Os hoffech wneud sylw ar unrhyw agwedd o'r Panel Dinasyddion, os hoffech newid ffurf eich holiadur, neu os nad ydych ar hyn o bryd yn aelod o Banel Dinasyddion Ceredigion a hoffech ddod yn aelod, cysylltwch â:
Hannah Symons, Swyddog Ymchwil ar 01267 226262, at hannah.symons@dyfed-powys.pnn.polic.uk, neu ysgrifennwch i Corporate Development, Dyfed-Powys Police HQ, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Hywel Dda Health Board
Heddlu • Police DYFED-POWYS
Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys Police Authority